# 3. Cyfansoddiad Cyrff Llywodraethu

Mae’r bennod hon yn cyflwyno gwybodaeth am gyfansoddiad cyrff llywodraethu, gan gynnwys:

A. categorïau ysgolion;

B. beth yw cyfansoddiad cyrff llywodraethu:

- mathau o lywodraethwyr;
- Offeryn Llywodraethu a phrosesau;
- cyfnod mewn swydd;
- adolygu’r cyfansoddiad a’r dewisiadau;
- cael gwared ar lywodraethwyr nad oes eu hangen;
- cyfansoddiad cyrff llywodraethu;
- sut mae bod yn gymwys neu’n anghymwys i fod yn llywodraethwr;

C. ethol a phenodi llywodraethwyr;

D. ymddiswyddiadau a diswyddiadau llywodraethwyr, gan gynnwys atal llywodraethwr.

**Cefndir**

1. Rhaid i bob ysgol a gynhelir gael corff llywodraethu yn unol â Deddf Addysg 2002, Rhan 3, Pennod 1, sy’n cyflwyno’r fframwaith ar gyfer sefydlu cyrff llywodraethu.

2. Mae cyrff llywodraethu yn gyfuniad o amrywiaeth o lywodraethwyr wedi’u penodi neu eu hethol.

S 3. Bydd cyfansoddiad pob corff llywodraethu’n dibynnu ar nifer ac ystod
F oedran disgyblion yr ysgol a chategori’r ysgol h.y. ysgol gymunedol, ysgol
VA arbennig gymunedol, ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir (VA),
VC ysgol wirfoddol a reolir (VC) neu ysgol feithrin a gynhelir (MN). Bydd rhestr
MN aelodaeth pob corff llywodraethu yn cael ei nodi yn Offeryn Llywodraethu’r
ysgolion unigol, a baratoir o dan adran 20 o Ddeddf Addysg 2002.

4. Bydd yr Offeryn Llywodraethu yn cael ei wneud yn unol â Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 ac fel y disgrifir yn ddiweddarach yn y Bennod hon, gall corff llywodraethu fabwysiadu model o’r dewisiadau sy’n fwyaf addas iddo. Yr unig eithriad i hyn yw ysgolion uwchradd â 600 neu fwy o ddisgyblion ac ysgolion cynradd â 100 neu fwy o ddisgyblion – does dim dewis o fodelau ar gael iddynt.

**Egwyddorion Arweiniol**

S F VA VC MN

5. Mae'r egwyddorion arweiniol yn pennu pa gategorïau llywodraethwyr a ddylai gael eu cynrychioli ar gorff llywodraethu a faint o gynrychiolaeth ddylai fod o bob categori. Mae gan bob ysgol pedwar grŵp rhanddeiliaid gorfodol, sef rhieni, athrawon, staff a chynrychiolwyr ALl. Mae eraill yn amrywio yn ôl categori'r ysgol a gallant gynnwys llywodraethwyr sylfaen, cymunedol, cynrychioliadol a phartneriaeth. Grŵp dewisol yw noddwr-lywodraethwyr.

## A. Categorïau Ysgolion

1. Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf SSF"), Rhan 2, Pennod 1, yn cyflwyno'r fframwaith ar gyfer categorïau'r ysgolion a gynhelir. Dyma'r categorïau, ac esboniad cryno iawn o'r hyn y maent yn ei olygu i'r ysgol:

- **Ysgol Gymunedol** – yr awdurdod lleol sy'n berchen ar yr ysgol a'i thir, ac yn gyfrifol am ei chynnal a'i staffio (yn amodol ar y cyfrifoldebau a ddirprwywyd i'r corff llywodraethu);
- **Ysgol Sefydledig** – y corff llywodraethu sy'n berchen ar yr adeiladau, yn cyflogi staff ac yn bennaf cyfrifol am drefniadau derbyn. Bydd yn derbyn arian refeniw a chyfalaf gan yr ALl;
- **Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir** – mae'r ysgol (weithiau trwy gyfrwng trydydd parti, hynny yw, yr hyrwyddwr) yn berchen ar ei hadeiladau ei hun, yn cyflogi staff ac yn ymdrin â'r trefniadau derbyn. Yr ALl sy'n darparu arian refeniw, trwy gyllideb yr ysgol. Bydd y corff llywodraethu'n cynnwys llywodraethwyr sefydledig, neu lywodraethwyr partneriaeth yn achos ysgolion di-sefydledig. Nhw fydd â'r mwyafrif o leoedd ar gorff llywodraethu;
- **Ysgol Wirfoddol a Reolir** – sefydliad gwirfoddol sydd yn aml yn berchen ar dir ac adeiladau'r ysgol. Er hynny, yr ALl sy'n cyflogi staff ac yn bennaf cyfrifol am drefniadau derbyn. Bydd gan y rhan fwyaf o ysgolion gwirfoddol a reolir gysylltiad â hyrwyddwr, sef corff crefyddol fel arfer er mwyn darparu addysg ffydd. Bydd y corff llywodraethu'n cynnwys llywodraethwyr sefydledig, er nad y nhw fydd y mwyafrif;
- **Ysgol Arbennig Gymunedol** – ysgol i blant sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig. Yr ALl sy'n berchen ar yr ysgol a'i thiroedd, ac yn gyfrifol am drefniadau cynnal a staffio hefyd.

Am fwy o wybodaeth am gategorïau ysgolion, gweler Deddf SSF.

2. Am fwy o wybodaeth ar faterion tir ac adeiladau, gweler Pennod 18 Safle'r Ysgol a Buddsoddiad Cyfalaf. Os yw categori'r ysgol yn effeithio ar swyddogaethau a/neu gyfrifoldebau'r corff llywodraethu, byddwn naill ai'n trafod hyn ar wahân neu'n ei nodi ochr yn ochr â phenodau perthnasol y canllawiau hyn.

# B. Cyfansoddiad Cyrff Llywodraethu

## Mathau o Lywodraethwyr

1. Mae gwybodaeth ynghylch ethol llywodraethwyr yn dilyn yn Rhan 2C.

2. Mae gan bob corff llywodraethu bedwar prif grŵp o lywodraethwyr, sef:

- **Rhiant-Lywodraethwyr** a gaiff eu hethol gan rieni neu eu penodi gan y corff llywodraethu i gynrychioli buddiannau rhieni ar y corff llywodraethu. I gael rhagor o wybodaeth ewch i baragraff 26.
- **Athro-Lywodraethwyr** a gaiff eu hethol gan eu cyd-athrawon yn yr ysgol. Rhaid i athro-lywodraethwr ymddiswyddo o'r corff llywodraethu os yw'n gadael swydd dysgu yn yr ysgol.
- **Staff-Lywodraethwyr** a gaiff eu hethol o blith a chan staff nad ydynt yn dysgu yn yr ysgol, a gyflogir i weithio yn yr ysgol. Ystyr 'cyflogir' yn hyn o beth yw rhywun sy'n cael ei gyflogi i weithio yn yr ysgol dan gontract cyflogaeth neu dan gontract cyflenwi gwasanaethau. Rhaid i staff-lywodraethwr ymddiswyddo o'r corff llywodraethu os yw'n gadael yr ysgol.
- **Llywodraethwyr Awdurdod Addysg Lleol (AALl)** a gaiff eu penodi gan yr ALl. Gall ALlau benodi unrhyw berson cymwys fel llywodraethwr AALl. Nid yw pob llywodraethwr AALl yn gynghorydd, er enghraifft, gallant gynnwys unrhyw un sydd â diddordeb mewn cefnogi ysgolion a bod y penodiad yn cael cefnogaeth yr awdurdod. Nid yw rhywun sy'n gymwys i fod yn staff-lywodraethwr neu riant-lywodraethwr yr ysgol yn cael bod yn llywodraethwr AALl.

3. Yn ogystal â hyn, mae'r **pennaeth** (neu bennaeth dros dro) yn aelod o gorff llywodraethu oni bai ei fod ef/hi'n dewis peidio â bod. Nid oes darpariaethau i benodi dirprwy lywodraethwr yn lle pennaeth sy'n penderfynu peidio â bod yn llywodraethwr. Rhaid i'r pennaeth ymddiswyddo o'r corff llywodraethu os yw'n gadael yr ysgol.

4. Mae categorïau gwahanol o gyrff llywodraethu'n gallu cynnwys rhai o'r llywodraethwyr canlynol hefyd:

- Mae **Llywodraethwyr Cymunedol** yn perthyn i dri chategori:
  - **Llywodraethwyr Cymunedol** a gaiff eu penodi gan y corff llywodraethu i gynrychioli buddiannau'r ysgol yn y gymuned ehangach. Gall llywodraethwyr cymunedol fod yn bobl sy'n byw neu'n gweithio yng nghymuned yr ysgol, neu os nad ydynt, yn bobl sy'n ymrwymo i arferion llywodraethu da a llwyddiant yr ysgol. Wrth benderfynu pwy i benodi, dylai llywodraethwyr sicrhau bod y corff llywodraethu'n adlewyrchu cydbwysedd o fuddiannau.

  - **Llywodraethwr Cynrychioliadol** – Mewn ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion arbennig sefydledig, rhaid i'r corff llywodraethu benodi rhywun a enwebwyd (os o gwbl) gan un neu fwy o sefydliadau gwirfoddol a bennwyd gan yr ALl, fel un o'r llywodraethwyr cymunedol. Nid llywodraethwr cymunedol ychwanegol mo hwn ond un o nifer penodedig. Os yw'r ysgol mewn ysbyty, yna rhaid i'r llywodraethwr cymunedol gael ei enwebu gan un neu fwy o fyrddau iechyd lleol neu'r ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG).
  - **Llywodraethwr Cymunedol Ychwanegol** – mae'n rhaid i gorff llywodraethu ysgol gynradd a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir sy'n gwasanaethu ardal â mwy nag un cyngor cymuned, sicrhau bod ganddynt un llywodraethwr cymunedol ychwanegol wedi'i enwebu gan y cyngor/cynghorau cymuned. Mae hyn yn **ychwanegol** at y llywodraethwyr cymunedol eraill.

VA VC F

- Mae **Llywodraethwyr Sefydledig** yn cael eu penodi gan bobl neu sefydliadau (os o gwbl) a enwir yn offeryn llywodraethu'r ysgol. Os oes gan yr ysgol gymeriad crefyddol arbennig, rhaid i'r llywodraethwyr sefydledig gadw at hyn a'i ddatblygu, a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddogfen ymddiriedolaeth, os oes un.

  Gallant fod yn llywodraethwyr yn rhinwedd eu swyddi (ex officio) os ydynt yn dal swydd a nodir yn yr offeryn llywodraethu, er enghraifft offeiriad plwyf. Os yw rhywun yn gadael ei swydd benodedig, bydd yn cael ei anghymwyso.

  Os oes gan fwy nag un corff yr hawl i benodi llywodraethwyr sefydledig, yna bydd yr offeryn llywodraethu yn nodi hyn, ac ar ba sail y byddant yn cael eu penodi.

VA VC F

- **Dirprwy Lywodraethwr.** Os yw'r offeryn llywodraethu yn cyfeirio at lywodraethwr sefydledig ex officio a bod deiliad y swydd naill ai ddim eisiau neu ddim yn gallu bod yn llywodraethwr, neu fod y swydd yn wag, gellir penodi rhywun i gymryd lle'r llywodraethwr ex officio. Bydd yn cael ei adnabod fel dirprwy lywodraethwr.

VA VC F

- **Llywodraethwyr Partneriaeth.** Os nad oes gan yr ysgol gorff sefydledig neu gorff cyfatebol, bydd llywodraethwyr partneriaeth yn cymryd lle llywodraethwyr sefydledig, ac yn cael eu penodi gan y corff llywodraethu ar ôl proses enwebu. Ni chaiff rhiant plentyn ar gofrestr yr ysgol, rhywun sy'n gymwys i fod yn athro-lywodraethwr neu'n staff-lywodraethwr, neu rywun sy'n aelod neu'n cael ei gyflogi gan yr ALl mewn perthynas â'i swyddogaethau fel ALl, fod yn llywodraethwr partneriaeth.

  Rhaid i'r corff llywodraethu ofyn i rieni plant ar gofrestr yr ysgol ac eraill yn y gymuned sy'n cael eu hystyried yn briodol (er enghraifft, staff, sefydliadau cymunedol a chyrff lleol eraill) gyflwyno enwebiadau ar gyfer llywodraethwyr partneriaeth.

- **Noddwr-lywodraethwyr** - sy'n cael eu penodi gan y corff llywodraethu. Mater i'r corff llywodraethu yw p'un ai ydynt yn dewis penodi noddwr-lywodraethwyr ai peidio. Gall noddwr fod yn rhywun sy'n rhoi, neu wedi rhoi, cymorth sylweddol i'r ysgol, yn ariannol neu mewn nwyddau, neu sy'n darparu gwasanaethau i'r ysgol. Os oes gan ysgol fwy nag un noddwr, gall y corff llywodraethu benodi hyd at ddau o bobl fel noddwr-lywodraethwr, ond mae'n rhaid i'r offeryn llywodraethu greu darpariaeth ar gyfer y lleoedd hyn.
- **Aelodau nad ydynt yn Llywodraethwyr –** gall corff llywodraethu benodi aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr i fynychu'r cyfarfodydd llawn neu i wasanaethu ar un neu fwy o bwyllgorau'r corff llywodraethu. Mae'r diffiniad o aelod nad yw'n llywodraethwr yn eang iawn, a gellir penodi disgyblion, staff yr ysgol a phobl sydd am gyfrannu'n benodol i faterion sy'n ymwneud â'u maes arbenigol nhw (er enghraifft, cyllid) fel aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr.

  Gan nad yw'r aelodau hyn yn llywodraethwyr, nid ydynt yn cael eu cofnodi yn yr offeryn llywodraethu. Er na chaiff aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr bleidleisio yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu, mae ganddynt bleidlais mewn cyfarfodydd pwyllgor – os yw'r corff llywodraethu wedi cytuno ar hynny wrth bennu cylch gorchwyl y pwyllgor dan sylw.
- **Disgybl-lywodraethwyr Cyswllt –** Mae Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 yn diwygio Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 fel y gellir penodi Disgybl-Lywodraethwyr Cyswllt ar gorff llywodraethu pob ysgol uwchradd a gynhelir.

  Mae'n rhaid i bennaeth ysgol sicrhau bod gan y cyngor ysgol gyfle i enwebu hyd at ddau ddisgybl blwyddyn 11 i 13 (cynhwysol) i fod yn aelodau o'r corff llywodraethu. Mae'r rhain yn ychwanegol at nifer y llywodraethwyr a nodir yn y dewisiadau dilynol. Mae'n rhaid i gorff llywodraethu dderbyn unrhyw ddisgybl sy'n cael ei enwebu, a'i benodi ef neu hi fel Disgybl-Lywodraethwr Cyswllt, cyn belled â'i fod yn cael ei enwebu yn unol â'r Rheoliadau ac nad yw'r disgybl wedi'i anghymwyso rhag dal swydd.
- **Aelodau Annibynnol o Bwyllgorau Disgyblu Staff –** Os oes angen i bwyllgor disgyblu staff neu bwyllgor apêl disgyblu staff gyfarfod i glywed honiadau yn erbyn aelod o staff ar fater amddiffyn plant, mae'n rhaid i'r pwyllgor gynnwys o leiaf ddau lywodraethwr a pherson annibynnol nad yw'n llywodraethwr. Am fwy o wybodaeth am hyn, gweler y wybodaeth am weithdrefnau disgyblu staff ym Mhennod 10.

**Offeryn Llywodraethu**

5. Mae'r offeryn llywodraethu yn cyflwyno cyfansoddiad y corff llywodraethu ac yn ei sefydlu fel corff corfforaethol. Dylai gynnwys:

- enw'r ysgol;

- y categori y mae'r ysgol yn perthyn iddo;
- enw corff llywodraethu'r ysgol;
- beth yw cyfansoddiad y corff llywodraethu, hynny yw
  - nifer y llywodraethwyr ym mhob categori llywodraethwyr;
  - os oes gan ysgol lywodraethwyr cymunedol neu noddwr-lywodraethwyr ychwanegol, pwy fydd yn gyfrifol am eu penodi;
  - cyfanswm aelodau'r corff llywodraethu;
- cyfnodau'r llywodraethwyr mewn swydd, os yw'n llai na'r cyfnod arferol o bedair blynedd;
- os oes gan yr ysgol lywodraethwyr sefydledig:
  - pwy sy'n gyfrifol am eu penodi;
  - unrhyw swyddi ex officio;
  - pwy sydd â'r hawl i gael gwared ag unrhyw lywodraethwyr ex officio a phenodi dirprwy lywodraethwr yn eu lle;
- yn achos ysgol arbennig gymunedol, enw'r corff sy'n gyfrifol am benodi llywodraethwyr cynrychioliadol;
- manylion unrhyw ymddiriedolaeth, os yw'n berthnasol;
- disgrifiad o ethos crefyddol ysgolion sefydledig neu wirfoddol a bennwyd fel rhai â chymeriad crefyddol;
- y dyddiad pan ddaw'r offeryn llywodraethu i rym.

**Y Broses o Wneud ac Adolygu'r Offeryn Llywodraethu**

6. Mae'r prosesau ar gyfer paratoi ac amrywio offeryn llywodraethu wedi'u hamlinellu yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005. Mae'r corff llywodraethu'n paratoi offeryn drafft ac yn ei gyflwyno i'r ALl. Rhaid i'r ALl wirio bod yr offeryn drafft yn cydymffurfio â'r gofynion statudol, gan gynnwys yr egwyddorion arweiniol perthnasol ar gyfer cyfansoddiad cyrff llywodraethu. Os yw'r offeryn yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol, bydd yr ALl yn gwneud yr offeryn. Mae'r corff llywodraethu neu'r ALl yn gallu adolygu a newid yr offeryn unrhyw bryd.

7. Os yw'n briodol, rhaid i unrhyw lywodraethwyr sefydledig, ymddiriedolwyr a/neu gorff crefyddol gymeradwyo offeryn llywodraethu cyn ei gyflwyno i'r ALl.

8. Unwaith y mae'r offeryn llywodraethu wedi'i wneud, dylai'r ALl sicrhau bod y canlynol yn cael copi am ddim:

- pob aelod o'r corff llywodraethu;
- y pennaeth;

- ymddiriedolwyr unrhyw ymddiriedolaeth sy'n gysylltiedig â'r ysgol; ac
- unrhyw gorff crefyddol neu awdurdod esgobaeth sy'n gysylltiedig â'r ysgol.

**Cyfnod mewn Swydd**

9. I'r rhan fwyaf o lywodraethwyr, mae'r cyfnod mewn swydd yn para pedair blynedd o'r dyddiad penodi. Dyma'r eithriadau i hyn:

- llywodraethwyr sydd wedi'u penodi fel llywodraethwyr ex officio, hynny yw, pennaeth neu lywodraethwyr a benodwyd yn rhinwedd eu swydd;
- rhieni-lywodraethwyr ysgol feithrin gymunedol, sydd â chyfnod mewn swydd o ddwy flynedd;
- disgybl-lywodraethwyr cyswllt, sydd â chyfnod mewn swydd o flwyddyn;
- llywodraethwyr sefydledig, llywodraethwyr ychwanegol a llywodraethwyr sefydledig ychwanegol, lle mai'r corff/sawl sy'n penodi sy'n penderfynu ar eu cyfnod mewn swydd, hyd at bedair blynedd.

10. Gall llywodraethwr ddewis ymddiswyddo o'i gyfnod mewn swydd ar unrhyw adeg. Os yw llywodraethwr yn ymddiswyddo neu os yw pennaeth yn dewis bod yn llywodraethwr neu beidio, rhaid rhoi gwybod i glerc y corff llywodraethu yn ysgrifenedig.

11. Nid yw'r cyfnod mewn swydd yn rhwystro llywodraethwr rhag cael ei ethol neu ei benodi am dymor arall, cyhyd â'i fod yn bodloni'r gofynion cydymffurfio, ac nad yw'n anghymwys o dan y Rheoliadau sydd mewn grym ar y pryd.

**Adolygu'r Offeryn Llywodraethu**

12. Dylai corff llywodraethu adolygu ei gyfansoddiad ei hun yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn dal yn addas i'r ysgol. Os oes gan yr ysgol lawer mwy neu lai o ddisgyblion ers pan grëwyd yr offeryn, mae'n bosibl y bydd angen newid nifer y llywodraethwyr.

13. Os yw'r corff llywodraethu neu'r ALl yn penderfynu ar ôl adolygu, y byddai un o'r dewisiadau sydd ar gael yn fwy addas na'r cyfansoddiad presennol, rhaid i'r naill roi gwybod i'r llall.

F 14. Mewn ysgolion sefydledig neu wirfoddol, rhaid cael cytundeb y
VA llywodraethwyr sefydledig, yr ymddiriedolwyr a'r esgobaeth, fel sy'n briodol,
VC cyn gwneud unrhyw newidiadau.

15. Mae'r weithdrefn ar gyfer newid yr offeryn yn dilyn y weithdrefn a ddefnyddiwyd i'w baratoi. Os yw'r ALl yn cytuno i newid pethau, yna bydd angen newid nifer y llywodraethwyr mewn rhai categorïau, neu ym mhob categori. Hefyd, dylai'r offeryn llywodraethu newydd gynnwys y dyddiad y daw'r newidiadau newydd i rym.

16. Ni ellir disgwyl i'r ALl newid yr offeryn llywodraethu os nad yw'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

**Cael Gwared ar Lywodraethwyr nad oes eu Hangen**

17. Os oes gan gorff llywodraethu fwy o lywodraethwyr mewn unrhyw gategori na'r hyn sy'n ofynnol gan yr offeryn llywodraethu, ac nad yw'r rhai dros ben yn ymddiswyddo, yna bydd llywodraethwyr y categori hwnnw yn cael eu diswyddo gan ddilyn trefn bendant, sef cael gwared arnynt gan ddechrau gyda'r un sydd wedi gwasanaethu am y cyfnod byrraf. Os oes un neu fwy o'r llywodraethwyr wedi gwasanaethu am yr un cyfnod o amser, yna gwneir penderfyniad trwy ddewis enw ar hap.

18. Wrth gael gwared ar lywodraethwyr, mae llywodraethwyr cymunedol ychwanegol yn cael eu hystyried fel rhai ar wahân i lywodraethwyr cymunedol.

**Cyfansoddiad Cyrff Llywodraethu**

19. Mae aelodaeth cyrff llywodraethu wedi'i hamlinellu yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 a bydd yn dibynnu ar gategori a maint yr ysgol. Mae'r dewisiadau ar gyfer pob un i'w gweld ar y tudalennau nesaf. Mae llywodraethwyr cymunedol ychwanegol, lle bo'n berthnasol, yn ychwanegol at nifer y llywodraethwyr cymunedol a restrir.

**Ysgolion Cymunedol**

Ysgol uwchradd gymunedol â 600 neu fwy o ddisgyblion (colofn a)
Ysgol uwchradd gymunedol â llai na 600 o ddisgyblion (colofn a neu b)
Ysgol gynradd gymunedol â 100 neu fwy o ddisgyblion (colofn c neu d)
Ysgol gynradd gymunedol â llai na 100 o ddisgyblion (colofn c, d, e neu f)
Ysgol feithrin gymunedol a gynhelir â 100 neu fwy o ddisgyblion (colofn c neu d)
Ysgol feithrin gymunedol a gynhelir â llai na 100 o ddisgyblion (colofn c, d, e neu f)
Ysgol arbennig gymunedol (colofn c, d, e neu f)

| Categori llywodraethwr | a | b | c | d | e | f |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhiant** | 6 | 5 | 5 | 4 | 3 | 3 |
| **AALl** | 5 | 4 | 4 | 3 | 2 | 2 |
| **Athro **** | 2 | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 |
| **Staff **** | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 |
| **Cymunedol *** ****** | 5 | 4 | 4 | 3 | 2 | 2 |
| **Pennaeth** | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |

* Gall y Pennaeth ddewis bod yn llywodraethwr neu beidio.

** Gall offeryn llywodraethu ysgol feithrin a gynhelir ganiatáu categori unigol o staff-lywodraethwr yn lle'r categorïau ar wahân o athro-lywodraethwr a staff-lywodraethwr. Dylid cael o leiaf un staff-lywodraethwr.

*** Yn achos ysgol arbennig gymunedol, gall yr ALl ddynodi un (neu fwy nag un sy'n gweithio ar y cyd) sefydliad gwirfoddol priodol i benodi llywodraethwr cynrychioliadol, a fydd yn cymryd lle un o'r llywodraethwyr cymunedol penodedig. Os oes ysgol arbennig gymunedol mewn ysbyty, rhaid i'r ALl ddynodi un (neu fwy nag un sy'n gweithio ar y cyd) bwrdd iechyd lleol, neu'r Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol y mae gan yr ysgol fwyaf o gysylltiad â hi, i benodi llywodraethwr cynrychioliadol.

**** Mae'n rhaid i gorff llywodraethu ysgol gynradd gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir sy'n gwasanaethu ardal lle ceir mwy nag un cyngor cymuned, sicrhau bod lle i un llywodraethwr cymunedol ychwanegol wedi'i enwebu gan y cyngor/cynghorau cymuned.

## Ysgolion Sefydledig

Ysgol uwchradd sefydledig â 600 neu fwy o ddisgyblion (colofn a)
Ysgol uwchradd sefydledig â llai na 600 o ddisgyblion (colofn a neu b)
Ysgol gynradd sefydledig â 100 neu fwy o ddisgyblion (colofn c neu d)
Ysgol gynradd sefydledig â llai na 100 o ddisgyblion (colofn c, d, e neu f)
Ysgol arbennig sefydledig (colofn c, d, e neu f)

| Categori llywodraethwr | a | b | c | d | e | f |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhiant** | 7 | 6 | 6 | 5 | 4 | 4 |
| **AALl** | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| **Athro** | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Staff** | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 |
| **Sefydledig **** | 5 | 4 | 4 | 3 | 2 | 2 |
| **Cymunedol ***** | 3 | 2 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Pennaeth *** | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |

* Gall y Pennaeth ddewis bod yn llywodraethwr neu beidio.

** Os nad oes gan yr ysgol lywodraethwr sefydledig, dylid cyfeirio at lywodraethwyr partneriaeth yn lle llywodraethwyr sefydledig.

*** Mae’n rhaid i gorff llywodraethu ysgol gynradd gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir sy’n gwasanaethu ardal lle ceir mwy nag un cyngor cymuned, sicrhau bod lle i un llywodraethwr cymunedol ychwanegol wedi’i enwebu gan y cyngor/cynghorau cymuned.

**Ysgolion Gwirfoddol a Reolir**

Ysgol uwchradd wirfoddol a reolir â 600 neu fwy o ddisgyblion (colofn a)
Ysgol uwchradd wirfoddol a reolir â llai na 600 o ddisgyblion (colofn a neu b)
Ysgol gynradd wirfoddol a reolir â 100 neu fwy o ddisgyblion (colofn c neu d)
Ysgol gynradd wirfoddol a reolir â llai na 100 o ddisgyblion (colofn c, d, e neu f)

| Categori llywodraethwr | a | b | c | d | e | f |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhiant** | 6 | 5 | 5 | 4 | 3 | 3 |
| **AALl** | 4 | 3 | 3 | 3 | 2 | 2 |
| **Athro** | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Staff** | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 |
| **Sefydledig** | 5 | 4 | 4 | 3 | 2 | 2 |
| **Cymunedol ** ** | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Pennaeth * ** | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |

* Gall y Pennaeth ddewis bod yn llywodraethwr neu beidio.

** Mae'n rhaid i gorff llywodraethu ysgol gynradd wirfoddol sy'n gwasanaethu ardal lle ceir mwy nag un cyngor cymuned, sicrhau bod lle i un llywodraethwr cymunedol ychwanegol wedi'i enwebu gan y cyngor/cynghorau cymuned.

**Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir**

Ysgol uwchradd wirfoddol a gynorthwyir â 600 neu fwy o ddisgyblion (colofn a)
Ysgol uwchradd wirfoddol a gynorthwyir â llai na 600 o ddisgyblion (colofn a neu b)
Ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyir â 100 neu fwy o ddisgyblion (colofn c neu d)
Ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyir â llai na 100 o ddisgyblion (colofn c, d, e neu f)

| **Categori llywodraethwr** | **a** | **b** | **c** | **d** | **e** | **f** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhiant** | 3 | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 |
| **AALl** | 2 | 1 | 2 | 1 | 1 | 1 |
| **Athro** | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Staff** | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 |
| **Pennaeth *** | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Sefydledig ** *** ****** | ** | ** | ** | ** | ** | ** |

* Gall y Pennaeth ddewis bod yn llywodraethwr neu beidio.

** Dylid penodi tri yn fwy o lywodraethwyr sefydledig na chyfanswm llywodraethwyr yr holl gategorïau eraill mewn corff llywodraethu ysgol uwchradd, a dau yn fwy ar gyfer unrhyw ysgol arall.

*** Yn achos corff llywodraethu ysgol uwchradd a sefydlwyd yn unol â cholofn a, rhaid i'r llywodraethwyr sefydledig gynnwys o leiaf dri llywodraethwr sy'n rhieni plant ar gofrestr yr ysgol adeg eu penodi. Ar gyfer yr holl ddewisiadau eraill, dylid cael dau riant o'r fath.

**** Mae'n rhaid i gorff llywodraethu ysgol gynradd wirfoddol sy'n gwasanaethu ardal lle ceir mwy nag un cyngor cymuned, sicrhau bod lle i un llywodraethwr cymunedol ychwanegol wedi'i enwebu gan y cyngor/cynghorau cymuned.

**Bod yn Gymwys ac Anghymwys**

20. Mae Atodlen 5 i Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 yn trin a thrafod sut mae llywodraethwyr yn gymwys ac anghymwys.

21. Rhaid i lywodraethwr fod yn 18 oed neu drosodd ar ddyddiad ei ethol neu ei benodi (ac eithrio disgybl-lywodraethwr cyswllt).

22. Ni chaiff rhywun ddal swydd neu barhau i ddal swydd llywodraethwr:

- os yw'n cael ei gadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn ystod ei gyfnod mewn swydd;
- os yw'n colli cyfarfodydd y corff llywodraethu – heb ganiatâd y corff llywodraethu – am gyfnod di-dor o chwe mis, gan gychwyn ar ddyddiad y cyfarfod cyntaf a fethwyd (nid yw'n berthnasol i lywodraethwyr ex officio). Os anfonwyd ymddiheuriad i'r cyfarfod gan y llywodraethwr, yna rhaid i gofnodion y cyfarfod hwnnw nodi a ganiatawyd yr absenoldeb ai peidio – a rhaid anfon copi o'r cofnodion at y llywodraethwr.
- os yw'n destun gorchymyn methdalu neu orchymyn dros dro;
- os yw ei stad wedi ei hatafaelu ac os nad yw'r gorchymyn atafaelu wedi ei atal, ei ddirymu neu ei ddad-wneud;
- os yw'n destun:
  - gorchymyn anghymwyso neu ymgymeriad anghymwyso o dan Ddeddf Anghymwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986
  - gorchymyn anghymwyso o dan Ran 2 o Orchymyn Cwmnïau (Gogledd Iwerddon) 1989
  - ymgymeriad anghymwyso a dderbyniwyd o dan Orchymyn Anghymwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau (Gogledd Iweddon) 2002
  - gorchymyn a wnaed o dan adran 492(2)(b) o Ddeddf Ansolfedd 1986 (methu â thalu o dan orchymyn gweinyddu Llys Sirol);
- wedi ei ddiswyddo o swydd ymddiriedolwr elusennol neu fel ymddiriedolwr ar gyfer elusen gan y Comisiynwyr Elusennau neu'r Uchel Lys oherwydd camymddygiad neu gamreolaeth elusennau, neu o dan adran 7 o Ddeddf Diwygio'r Gyfraith (Darpariaethau Amrywiol) (Yr Alban) 1990 rhag ymwneud â rheoli neu reolaeth ar unrhyw gorff;
- wedi ei gynnwys ar restr y bobl y gwaherddir neu y cyfyngir ar eu cyflogi o dan Adran 1 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1999.
- wedi ei anghymwyso rhag gweithio gyda phlant neu sy'n destun cyfarwyddyd Llywodraeth y Cynulliad o dan adran 142 o Ddeddf Addysg 2002;

- wedi ei anghymwyso rhag bod yn berchennog ysgol annibynnol;
- wedi ei ddedfrydu i dri mis neu ragor o garchar (boed wedi'i ohirio neu beidio) (heb y dewis o dalu dirwy) yn ystod y pum mlynedd cyn dod yn llywodraethwr neu ers dod yn llywodraethwr;
- wedi ei ddedfrydu i ddwy flynedd a hanner neu ragor o garchar yn ystod yr 20 mlynedd cyn dod yn llywodraethwr;
- wedi ei ddedfrydu i bum mlynedd neu ragor o garchar ar unrhyw adeg;
- wedi cael dirwy am achosi niwsans neu aflonyddwch ar dir yr ysgol yn ystod y pum mlynedd cyn neu ers cael ei ethol yn llywodraethwr;
- yn gwrthod cais gan y corff llywodraethu i ofyn i'r Swyddfa Cofnodion Troseddol am dystysgrif cofnodion troseddol.

23. Bydd llywodraethwyr newydd sydd wedi eu penodi a'u hethol yn gorfod cofrestru gyda'r Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA) o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006 (Deddf SVG). Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.isa-gov.org.uk.

24. Os yw rhywun wedi'i anghymwyso rhag dal swydd neu barhau i ddal swydd o dan y darpariaethau hyn, rhaid iddynt roi gwybod i glerc y corff llywodraethu.

25. Ni all disgyblion ar gofrestr yr ysgol, rhywun sy'n gymwys i fod yn staff-lywodraethwr neu'n athro-lywodraethwr o unrhyw ysgol, nac aelodau etholedig yr ALl, fod yn llywodraethwyr cymunedol. Mae hyn oherwydd mai nod llywodraethwyr cymunedol yw cynrychioli'r gymuned ehangach.

26. Nid yw aelodau etholedig yr ALl, gweithwyr cyflogedig yr ALl na gweithwyr cyflogedig corff llywodraethu unrhyw ysgol a gynhelir gan yr ALl yn gymwys i gael eu penodi fel rhiant-lywodraethwyr oni bai eu bod yn rhieni disgyblion yr ysgol. (Fel arfer, rhieni eraill sy'n ethol rhiant-lywodraethwyr).

27. Ni all unrhyw un, ar unrhyw adeg:

- ddal swydd mwy nag un llywodraethwr yn yr un ysgol, neu fod yn
- aelod o fwy na dau gorff llywodraethu ysgolion a gynhelir oni bai ei fod ef/hi:
  - wedi'i benodi fel llywodraethwr ar gyfer ysgol sy'n destun pryder dan adrannau 16, 16A, 18 neu 18A o Ddeddf SSF (*gweler Pennod 24*);
  - yn llywodraethwr dros dro; neu
  - yn llywodraethwr ex officio. Gall llywodraethwr ex officio fod yn aelod o ddau gorff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn ogystal â dau gorff llywodraethu arall fel llywodraethwr cyffredin (ac nid llywodraethwr ex officio, hynny yw).

# C. Ethol a Phenodi Llywodraethwyr

## Etholiadau

1. Lle bo’n bosibl, dylid llenwi swyddi rhiant-lywodraethwyr, athro-lywodraethwyr a staff-lywodraethwyr trwy etholiad. Cyfrifoldeb yr “awdurdod priodol” fydd trefnu’r etholiadau, gweler paragraffau 2 a 3.

VC N S

2. Yr ALl yw’r awdurdod priodol yn achos ysgolion cymunedol, arbennig cymunedol, gwirfoddol a reolir a meithrin, er y gellir dirprwyo hyn i’r pennaeth.

F FS VA

3. Y corff llywodraethu yw’r awdurdod priodol yn achos ysgolion sefydledig, arbennig sefydledig a gwirfoddol a gynorthwyir hefyd, er y gellir dirprwyo rhan o’r gwaith i’r pennaeth. Hefyd, rhaid i’r corff llywodraethu gytuno i’r ALl wneud y trefniadau. Yn yr amgylchiadau hyn, gall yr ALl ddirprwyo’r gwaith i’r pennaeth.

4. Bydd angen i’r awdurdod priodol benderfynu:

- pryd a ble i gynnal yr etholiad;
- sut y dylid gwneud enwebiadau;
- pa ddulliau pleidleisio i’w defnyddio; ac
- a ddylid cael swyddog canlyniadau neu swyddog etholiad (swyddog yn gyfrifol am y broses bleidleisio).

5. Gall yr awdurdod priodol hefyd osod dyddiadau cymhwyso i’r ymgeiswyr ar gyfer sefyll etholiad. Ni ellir pennu lleiafswm o ran nifer y pleidleisiau sydd eu hangen ar gyfer ethol rhiant-lywodraethwr, athro-lywodraethwr neu staff-lywodraethwr.

6. Dylid rhoi gwybod i rieni, athrawon a staff eraill, yr ALl a’r corff llywodraethu (fel sy’n briodol) beth oedd canlyniad yr etholiad. Dylid cadw’r papurau pleidleisio am gyfnod rhag ofn y bydd rhywun yn herio’r etholiad.

7. Dylai’r corff llywodraethu sicrhau bod y clerc yn rhoi gwybod i’r ALl os oes unrhyw newidiadau o ran llywodraethwyr. Mae’n rhaid i’r ALl gael y manylion hyn i’w helpu gyda’u dyletswydd statudol o roi gwybodaeth a hyfforddiant i holl lywodraethwyr ysgolion a gynhelir yn eu hardal.

8. Gall Rhiant-lywodraethwyr, Athro-lywodraethwyr a Staff-lywodraethwyr sefyll eto unwaith y daw eu cyfnod mewn swydd i ben, cyn belled â’u bod yn dal i fodloni’r gofynion perthnasol.

9. Rhaid i Athro-lywodraethwyr a Staff-lywodraethwyr ymddiswyddo os ydynt yn gadael yr ysgol.

10. Dylid adolygu trefniadau'r etholiadau o bryd i'w gilydd. Os yw'r ALl yn cynnal etholiadau, a bod y pennaeth neu'r corff llywodraethu yn ymwybodol o unrhyw broblemau sy'n codi yn ystod etholiadau, dylent ddweud wrth yr ALl er mwyn i'r ALl ystyried a oes angen unrhyw newidiadau.

**Ethol Rhiant-lywodraethwyr**

11. Rhaid hysbysu rhieni'r holl ddisgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol, am unrhyw swydd wag ar gyfer rhiant-lywodraethwr, yr angen am etholiad, eu hawl i sefyll i gael eu hethol ac i bleidleisio dros ymgeisydd o'u dewis. Ystyr rhiant yn y cyd-destun hwn yw rhywun sy'n rhiant naturiol neu unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant neu sy'n gofalu am blentyn neu berson ifanc - ni fyddai hyn yn cynnwys ALl sy'n gofalu am blentyn. (Am ddiffiniad llawn o riant, gweler Deddf Addysg 1996: Adran 576 a Chylchlythyr 13/2007 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, "Rhieni" a "Cyfrifoldeb Rhiant".)

12. Dylid gwahodd rhieni i sefyll mewn etholiad rhiant-lywodraethwr. Ni ellir mynnu bod rhywun yn cael ei enwebu a'i eilio gan rieni eraill, ac nid yw'n ofynnol i rieni gyflwyno datganiad enwebiad personol.

13. Os yw nifer y rhieni sy'n sefyll i'w hethol mewn unrhyw ysgol yr un faint â nifer y lleoedd sydd ar gael, neu'n llai na hynny, bydd y rhieni hynny'n dod yn llywodraethwyr yn awtomatig.

14. Os bydd mwy o enwebiadau yn dod i law nag sydd o leoedd gwag, rhaid cynnal etholiad trwy bleidlais gyfrinachol. Gellir cynnal etholiadau rhiant-lywodraethwyr naill ai drwy'r post neu 'bost disgyblion'. Os defnyddir 'post disgyblion', rhaid sicrhau nad yw'r amlen sy'n dychwelyd yn dangos pwy yw'r pleidleisiwr.

15. Mewn rhai amgylchiadau, efallai bod gan blentyn fwy na dau 'riant' sydd â'r hawl i sefyll i'w hethol, neu i bleidleisio. Bydd cofrestr dderbyniadau'r ysgol yn cynnwys rhestr o rieni'r disgyblion sydd yn yr ysgol. Dim ond un bleidlais sydd gan bob rhiant, waeth faint o blant sydd ganddo/ganddi yn yr ysgol.

16. Rhaid i ysgolion wneud pob ymdrech i lenwi swyddi rhiant-lywodraethwr trwy gynnal etholiad, ond ceir tair sefyllfa lle na all hyn fod yn bosibl:

- mae llai o rieni yn sefyll i'w hethol nag sydd o leoedd i'w llenwi;
- mae'r ALl yn penderfynu na fyddai'n ymarferol cynnal etholiad yn achos ysgol lle mae o leiaf hanner y disgyblion yn rhai preswyl;
- mae'r ALl yn penderfynu na fyddai'n ymarferol cynnal etholiad yn achos ysgol mewn ysbyty.

17. Yn yr amgylchiadau hyn, rhaid i'r corff llywodraethu **benodi** rhiant
NS disgybl sydd ar gofrestr yr ysgol, neu os nad yw hynny'n bosibl, rhiant plentyn o oedran ysgol gorfodol, neu yn achos ysgol feithrin a gynhelir, plentyn o dan

oedran ysgol gorfodol. Cofiwch fod ystyriaethau gwahanol yn achos ysgolion arbennig cymunedol. Mae rhagor o fanylion yn Atodlen 1 i Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005.

18. Wrth gynnal cyfarfod llywodraethwyr i **benodi** rhiant-lywodraethwr, rhaid i o leiaf hanner y llywodraethwyr cyfredol fod yn bresennol (wedi'u talgrynnu i rif cyfan), ac eithrio unrhyw lywodraethwyr cyswllt, lleoedd gwag neu wedi'u hatal. Ni ddylai corff llywodraethu benodi un o aelodau etholedig neu weithwyr yr ALI, neu weithiwr cyflogedig unrhyw ysgol yn ardal yr ALI, fel rhiant-lywodraethwr oni bai bod y person dan sylw yn rhiant i ddisgybl yr ysgol honno.

19. Nid oes rhaid i riant-lywodraethwyr ymddiswyddo os yw eu plant yn gadael yr ysgol yn ystod eu cyfnod mewn swydd, er bod croeso iddynt wneud hynny. Gallant sefyll i gael eu hailethol ar ddiwedd eu cyfnod mewn swydd os yw eu plentyn yn dal ar gofrestr yr ysgol.

20. Gall aelodau staff bleidleisio mewn etholiadau rhiant-lywodraethwyr os ydynt yn rhieni. Gallant fod yn llywodraethwyr mewn ysgolion eraill hefyd. Ni fydd eu statws cyflogaeth yn effeithio ar ba mor gymwys ydynt i fod yn llywodraethwr y categorïau hyn mewn ysgol arall.

### Ethol Athro-lywodraethwyr

21. Rhaid cynnig cyfle i unrhyw un sy'n athro o dan gytundeb cyflogaeth neu gytundeb i ddarparu gwasanaethau yn yr ysgol, sefyll etholiad athro-lywodraethwr yn yr ysgol, a phleidleisio dros yr ymgeisydd o'i ddewis. Rhaid cynnal etholiadau trwy bleidlais gyfrinachol.

### Ethol Staff-lywodraethwyr

22. Rhaid cynnig cyfle i unrhyw un sy'n cael ei gyflogi i weithio yn yr ysgol (heblaw fel athro) o dan gytundeb cyflogaeth neu gytundeb i ddarparu gwasanaethau, sefyll i'w ethol yn staff-lywodraethwr yn yr ysgol, a phleidleisio dros yr ymgeisydd o'i ddewis. Rhaid cynnal etholiadau trwy bleidlais gyfrinachol.

## D. Ymddiswyddiadau a Diswyddiadau Llywodraethwyr

1. Gall llywodraethwr ymddiswyddo ar unrhyw adeg drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r clerc.

2. Rhaid i unrhyw rym a ddefnyddir i ddiswyddo llywodraethwr gael ei ddefnyddio'n rhesymol a chyfreithlon.

3. Ni ellir diswyddo rhiant-lywodraethwyr, athro-lywodraethwyr neu staff-lywodraethwyr yn ystod eu cyfnod mewn swydd tan eu bod wedi'u hanghymwyso o dan y rheoliadau a restrir yn y Bennod hon, neu os nad ydynt yn cael eu cyflogi i weithio yn yr ysgol mwyach yn achos athro-lywodraethwr neu staff-lywodraethwr.

4. Gall unrhyw lywodraethwr AALl, sefydledig neu gynrychioliadol gael ei ddiswyddo gan y corff neu'r sawl a fu'n gyfrifol am ei benodi. Rhaid i'r unigolyn hwnnw roi rhybudd ysgrifenedig i glerc y corff llywodraethu cyn diswyddo'r llywodraethwr.

5. Gall llywodraethwr ex officio gael ei ddiswyddo gan y sawl a enwir yn yr Offeryn Llywodraethu. Rhaid i'r unigolyn hwnnw roi rhybudd ysgrifenedig i glerc y corff llywodraethu cyn diswyddo'r llywodraethwr.

6. Gall llywodraethwyr cymunedol neu noddwr-lywodraethwyr ychwanegol gael eu diswyddo a fu'n gyfrifol am eu penodi. Unwaith eto, rhaid i'r unigolyn hwnnw roi rhybudd ysgrifenedig i'r clerc cyn diswyddo'r llywodraethwr.

7. Gall corff llywodraethu ddiswyddo llywodraethwr cymunedol, rhiant-lywodraethwr penodedig, llywodraethwr partneriaeth neu ddisgybl-lywodraethwr cyswllt trwy:

- basio cynnig y corff llywodraethu mewn cyfarfod a gynhelir ar ôl saith diwrnod o rybudd;
- rhoi 'diswyddo llywodraethwr' fel eitem benodol ar agenda'r cyfarfod;
- sicrhau bod o leiaf hanner aelodau'r corff llywodraeth (wedi'u talgrynnu i rif cyfan) yn bresennol yn y cyfarfod;
- sicrhau bod y llywodraethwr neu'r llywodraethwyr sy'n cynnig diswyddo'r llywodraethwr yn nodi'r rhesymau am hynny yn y cyfarfod, a bod y llywodraethwr y cynigir ei ddiswyddo yn cael cyfle i ymateb a gwneud datganiad; neu
- rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r llywodraethwr sy'n nodi'r rhesymau dros ddiswyddo. Dylid gwneud hyn ar ôl i'r cynnig gael ei basio.

### Hysbysu'r Clerc am Ymddiswyddiadau a Diswyddiadau

8. Pan fydd llywodraethwr naill ai'n ymddiswyddo neu'n cael ei ddiswyddo, neu pan fydd pennaeth yn dewis peidio â bod yn llywodraethwr, rhaid hysbysu clerc y corff llywodraethu yn ysgrifenedig.

### Atal Llywodraethwyr

9. Mewn rhai amgylchiadau penodol a nodir isod, gall corff llywodraethu benderfynu atal llywodraethwr am hyd at chwe mis:

- mae'r llywodraethwr wedi'i gyflogi i weithio yn yr ysgol ac mae'n destun trefniadau disgyblu yn ymwneud â'i swydd;
- mae'r llywodraethwr yn destun achos llys neu dribiwnlys, a gall canlyniad hynny olygu ei fod wedi'i anghymwyso rhag parhau i ddal swydd llywodraethwr o dan Atodlen 5 i Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005;
- mae'r llywodraethwr wedi ymddwyn mewn modd sy'n anghyson ag ethos neu gymeriad crefyddol yr ysgol ac wedi dwyn anfri, neu'n debyg o ddwyn anfri, ar yr ysgol, y corff llywodraethu neu swyddfa'r llywodraethwyr;
- mae'r llywodraethwr wedi torri ei ddyletswydd o gyfrinachedd i'r ysgol, y staff neu'r disgyblion.

10. Gall corff llywodraethu bleidleisio i atal llywodraethwyr am un o'r rhesymau uchod, ond nid oes rhaid iddynt. Dylai'r corff llywodraethu ond gwneud hyn fel y cam olaf posibl, ac wedi iddynt geisio datrys unrhyw anawsterau neu anghydfodau mewn ffordd adeiladol.

11. Yn amodol ar y rheoliadau, gall corff llywodraethu ddewis atal llywodraethwr am gyfnod neu gyfnodau penodol pellach.

12. Rhaid cynnwys unrhyw gynnig i atal fel eitem ar yr agenda ar gyfer cyfarfod, a rhaid rhoi o leiaf saith diwrnod o rybudd am hyn. Mae'n rhaid i'r llywodraethwr sy'n cynnig atal rhywun nodi ei resymau am hynny, cyn bod y corff llywodraethu yn pleidleisio ar y mater. Rhaid i'r llywodraethwr sy'n destun cynnig i'w atal, gael cyfle i ymateb drwy wneud datganiad cyn gadael y cyfarfod yn unol ag Atodlen 7, paragraff 2(2) i Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005. Dylid cynnal pleidlais wedyn.

13. Rhaid i lywodraethwr sydd wedi'i atal gael rhybudd o unrhyw gyfarfodydd, a rhaid anfon agendâu, adroddiadau a phapurau unrhyw gyfarfodydd ato yn ystod ei ataliad.

14. Os yw llywodraethwr wedi'i atal, ni ellir ei anghymwyso o'i swydd am fethu â mynychu cyfarfodydd.

# Y Gyfraith

Deddf Addysg 1996: Adran 576
Deddf Addysg 2002: Adrannau 19, 20, 21 a 23
Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005
Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006
Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol)(Cymru) 2007
Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005

## Canllawiau

"Rhieni" a "Cyfrifoldeb Rhiant" Canllawiau ar gyfer Ysgolion
Cylchlythyr 13/2007 Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Os bydd corff llywodraethu eisiau gwirio a yw darpar lywodraethwr neu lywodraethwr cyfredol wedi'i anghymwyso o dan y darpariaethau a nodir isod, dyma rai ffynonellau gwybodaeth:

- **Y Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol:** cysylltwch â'ch ALl
- **Methdaliad:**
  - Gwefan y Gwasanaeth Ansolfedd www.insolvency.gov.uk
  - Plymouth Land Registry (Plumer House, Tailyour Road, Plymouth, Dyfnaint PL6 5HY) sy'n cynnig gwasanaeth chwilio drwy'r post, am dâl www1.landregistry.gov.uk;
- **Cyfarwyddwyr Cwmnïau:**

  Cofrestr Tŷ'r Cwmnïau o gyfarwyddwyr wedi'u hanghymwyso www.tyrcwmniau.gov.uk.